# <u>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Gwynedd a Môn</u>

## Datganiad Ysgrifenedig gan Gydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn 1997 er mwyn cyfrannu at y gwaith o warchod a gofalu am yr AHNE. Ymysg yr aelodau, mae Cynghorwyr lleol, aelodau o Gynghorau Cymuned, a chynrychiolwyr o fudiadau ac asiantaethau lleol fel Cyfeillion Llŷn, yr Undebau Amaethyddol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r aelodau yn trafod materion cenedlaethol a lleol, gan gynnwys materion cynllunio, ac yn cyfrannau at y gwaith o baratoi ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.

## Sylw 806

### 1. Pa ran o'r Cynllun yr ystyrir yn anniogel ?

Polisi Strategol PS16 – Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol.

### 2. Pa brofion cadernid sydd ddim yn cael eu cwrdd ?

Mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn ardal ddaearyddol wedi ei dynodi yn statuol o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Nodir yn Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 8, 2016) mai prif reswm dynodi ardal fel AHNE yw cynnal a gwella eu harddwch naturiol. Nodir fod yr AHNE o'r un statws â'r Parciau Cenedlaethol o ran harddwch gweledol ac y dylent  gael y warchodaeth uchaf rhag datblygiadau anaddas. Hefyd nodir y dylai polisïau cynllunio roddi pwyslais mawr ar gynnal a gwella yr harddwch naturiol, bywyd gwyllt a treftadaeth diwylliannol.

Nid oes polisi penodol o ran cynnal a gwarchod yr AHNE yn y Cynllun Adnau. Yn hytrach ceir cyfeiriadau cyffredinol ym mholisi PS16 fel y canlynol:

- "Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes yr arfordir a thirweddau"
- "Gwarchod a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol... yn unol â Pholisi Cenedlaethol" .

### 3. Pam mae'n methu ?

Ni chredir fod polisi cyffredinol PS16, a chyfeirio at bolisiau cenedlaethol, yn ddigonol o ran cynnal a gwella yr AHNE.

Fel y nodwyd mae'r AHNE yn ddynodiad cadwriaethol statudol o'r un statws a Pharc Cenedlaethol. Er budd defnyddwyr y Cynllun credir fod angen bod yn benodol a chyfeiro at dynodiad statudol yr AHNE mewn polisi unigol. Mae hyn yn digwydd yn achos Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (mabwysiadwyd 2013) – gweler Polisi VOE 2.

## 4. Sut medrir gwneud y cynllun yn gadarn ?

Credir fod angen polisi penodol ar gyfer cynnal a chadw'r AHNE, tebyg i Bolisi B8 yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Mae nifer o gynlluniau Datblygu Lleol eraill hefyd yn cynnwys polisïau penodol ar warchod tirluniau dynodedig cenedlaethol.

# <u>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Gwynedd a Môn</u>

## Datganiad Ysgrifenedig gan Gydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn 1997 er mwyn cyfrannu at y gwaith o warchod a gofalu am yr AHNE. Ymysg yr aelodau, mae Cynghorwyr lleol, aelodau o Gynghorau Cymuned, a chynrychiolwyr o fudiadau ac asiantaethau lleol fel Cyfeillion Llŷn, yr Undebau Amaethyddol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r aelodau yn trafod materion cenedlaethol a lleol, gan gynnwys materion cynllunio, ac yn cyfrannau at y gwaith o baratoi ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.

## Sylw 810

### 1. Pa ran o'r Cynllun yr ystyrir yn anniogel ?

Polisi  AMG3 – Gwarchod yr Arfordir

### 2. Pa brofion cadernid sydd ddim yn cael eu cwrdd ?

Mae'r polisi yn ymwneud â gwarchod arfordir Ardal y Cynllun. Er yn cydnabod y dynodiad "Arfordir Treftadaeth" nid yw'r polisi ei hun yn gwahaniaethu rhwng yr ardal honno a gweddill yr arfordir. Nid yw'r polisi yn rhoi gwarchodaeth ychwanegol i'r ardal ddynodedig.

### 3. Pam mae'n methu ?

Mae'r Arfordir Treftadaeth yn ddynodiad pwysig sydd yn dilyn ffin arfordirol yr AHNE yn Llŷn (ac eithrio ardal Castellmarch a Llanbedrog ar yr arfordir deheuol). Hefyd mae Arfordir Treftadaeth Ynys Môn (sydd mewn 3 rhan) yn adlewyrchu rhannau o'r AHNE.

Sail y dynodiad oedd adroddiadau ymchwil gan y Cyngor Cefn Gwlad yn nechrau'r 1970au oedd yn edrych ar newidiadau oedd wedi effeithio yr arfordir a phwysigrwydd cynnal a chadw y rhannau gorau a mwyaf naturiol o arfordir. Roedd Llywodraeth y dydd yn gefnogol i'r adroddiadau ac anogwyd Awdurdodau Lleol, mewn cydweithrediad gyda'r Cyngor Cefn Gwlad, i ddynodi  Arfordiroedd Treftadaeth.

Yn dilyn hyn dynodwyd nifer o Arfordiroedd Treftadaeth trwy y DU, ar sail y meini prawf canlynol:

- Eu bod yn cynnwys arfordir o werth golygfaol eithriadol;
- Yn fwy nag un filltir o hyd;
- Heb eu datblygu i raddau helaeth;
- Yn cynnwys nodweddion o arwyddocad a diddordeb arbennig, yn rhai naturiol neu’n rhai o wneuthuriad dyn.

Er yn ddynodiad anstatudol mae’r Arfordir Treftadaeth yn un pwysig ac yn seiliedig ar waith ymchwil a chytundeb rhwng Awdurdodau Lleol ac arbenigwyr.

## 4. Sut medrir gwneud y cynllun yn gadarn ?

Credir y dylai’r polisi adlewyrchu’r dynodiad yn fwy cadarnhaol drwy roi mwy o warchodaeth i’r Arfordir Treftadaeth.

Gellir cynnwys polisi newydd neu addasu’r polisi presennol er rhoi mwy o gydnabyddiaeth a gwarchodaeth i Arfordir Treftadaeth yng Ngwynedd a Môn.